

# Safonau'r Gymraeg Adroddiad Blynyddol 2018



**31<sup>ain</sup> Ionawr 2019**

*Mae fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar [wefan y Brifysgol](#) ac mae copïau caled yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gael mewn swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.*

# Cyflwyniad

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd statudol ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â safonau ymddygiad yn ymwneud â'r Gymraeg. Roedd yn cydnabod bod dwy iaith swyddogol yng Nghymru - y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn golygu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Cytunir ar y Safonau hyn yn genedlaethol.

Mae bod yn sefydliad yng Nghymru yn rhan anhepgor o hunaniaeth y Brifysgol ac yn dylanwadu ar ei haddysgu, ei hymchwil a'i hymgysylltiad lleol. Gyda'i hanes hir o ddiwallu anghenion Gogledd-ddwyrain Cymru a'r rhanbarth trawsffiniol, mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn cydweithio yng Nghymru ac yn diwallu ei hanghenion. Rhan o hyn yw sicrhau bod y Brifysgol nid yn unig yn diwallu anghenion diwylliannol ac ieithyddol y gymuned y mae'n ei gwasanaethu ond ei bod hefyd o bwys bod y Brifysgol yn galluogi ac yn cefnogi diwylliant ac iaith Cymru.

## Safonau'r Iaith Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn set o anghenion wedi eu rhwymo mewn cyfraith â'r nod o wella'r gwasanaeth dwyieithog y gall pobl Cymru ei ddisgwyl gan sefydliadau, gan gynnwys prifysgolion. Mae'r Safonau'n manylu ar ein cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau dwyieithog i sicrhau na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Eu nod yw:

- ei gwneud yn glir i'r Brifysgol beth yw ei dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg,
- ei gwneud yn gliriach i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn gan y Brifysgol yn y Gymraeg
- gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella eu hansawdd.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd statudol i fonitro sut mae sefydliadau'n cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg, ac i ymchwilio i gwynion ac achosion o dorri amodau cydymffurfio. Mae gan y Comisiynydd y pŵer i orfodi camau gorfodi, dyfarniadau llys sirol a dirwyon.

Mae'n bwysig nodi mai dim ond at weithgareddau'r brifysgol yng Nghymru y mae'r Safonau hyn yn cyfeirio.

Mae'r dyletswyddau a amlinellir yn y safonau yn nodi na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac maent yn gosod gofynion i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg (gan ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd).

## **Hysbysiad Cydymffurfio Prifysgol Glyndŵr**

Cyflwynir hysbysiad cydymffurfio i sefydliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag un neu ragor o safonau ac mae'n nodi'r diwrnod gosod, y diwrnod y mae'n ofynnol i sefydliad gydymffurfio â phob safon a nodir ynddo. [Hysbysiad Cydymffurfio'r Brifysgol](#) gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 29 Medi 2017 ac mae'n cynnwys 178 o safonau unigol y mae'n ofynnol i'r Brifysgol gydymffurfio â hwy o dan y themâu canlynol:

### **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

Yn ymwneud â'r gwasanaethau i'r cyhoedd a ddarperir gan sefydliad.

### **Safonau Llunio Polisi**

Ei gwneud yn ofynnol i sefydliad ystyried effeith ei benderfyniadau polisi ar siaradwyr Cymraeg a'r iaith Gymraeg, gan sicrhau bod yr egwyddor o drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cael ei chynnal.

## **Safonau Gweithredu**

Mae'r safonau hyn yn ymwneud â sut mae sefydliad yn defnyddio'r Gymraeg yn ei fusnes mewnol.

## **Safonau Cadw Cofnodion**

Mae'n ofynnol i sefydliad gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi sut y mae wedi cydymffurfio â'r Safonau perthnasol. Mae'n ofynnol bod yr adroddiad blynyddol hwn yn cael ei gyhoeddi o fewn chwe mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymdrin â hi. Mae blwyddyn ariannol y Brifysgol yn rhedeg o Awst 1af tan fis Gorffennaf 31.

Mae'r [Hysbysiad Cydymffurfio](#) yn nodi dyddiad gosod ar gyfer pob safon, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn effeithiol o 1 Ebrill 2018 gyda nifer fechan ohonynt â'r dyddiadau gosod o 1 Hydref 2018 a 2019.

---

# **Adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod 1<sup>af</sup> Ebrill 2018 i 31<sup>ain</sup> Gorffennaf 2018**

- 1. Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r safonau yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn (*fesul dosbarth o safon – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu*);**

Mae'r Brifysgol wedi cydnabod pwysigrwydd y Safonau, nid yn unig fel gofyniad statudol, ond fel ffordd o gefnogi a hwyluso defnyddio'r Iaith Gymraeg yng ngwaith y Brifysgol. Cafodd cydymffurfiaeth ei thrafod a dilynwyd ein cynnydd gan dîm uwch reolwyr y Brifysgol ac roedd gweithgor yn arwain ar canfod lle roedd angen cymryd camau pellach i sicrhau neu ymgorffori cydymffurfiaeth. Neilltuwyd cyfrifoldebau am gydymffurfiaeth yn erbyn Safonau arbennig i aelodau perthnasol o'r uwch reolwyr. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn dechreuwyd ar y gwaith o ffurfioli'r grŵp hwn, a bydd adroddiad ar hyn yn adroddiad y flwyddyn ganlynol. Cydlynwyd y gwaith hwn trwy

Swyddfa Cynllunio Strategol y Brifysgol, lle nodwyd cyfrifoldebau am gefnogi cydymffurfiaeth fel rhan o swydd newydd a gychwynwyd pan ddaeth y Safonau i rym. Rhan o waith y swydd hon yw cefnogi staff a phrosesau'r Brifysgol i gydymffurfio, gwella ymwybyddiaeth a gwella arferion, yn ogystal â gweithredu fel man canolog i gysylltu â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac ymateb i unrhyw gwynion a dderbynnir.

O ran cydymffurfio cyffredinol nid oedd unrhyw fwlch rhwng y dosbarth o safonau, gyda'r un pwysigrwydd yn cael ei roi i bob un, a'r gwaith a wnaed drwy uwch reolwyr, y gweithgor a thrwy friffiau cyffredinol i'r staff ar draws pob safon. Datblygwyd ystod o ganllawiau a thafenni cymorth i staff er mwyn helpu i ddatblygu dealltwriaeth ac arfer o ran cydymffurfio â'r Safonau, a rhoddwyd y rhain ar fewnwyd y staff. Isod ceir enghreifftiau o'r gwaith a wnaed yn y gwahanol ddsbarthiadau o Safonau:

### **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

- Mae'r Brifysgol yn croesawu gohebiaeth ac ymholiadau dros y ffôn yn Gymraeg a bod rhaid i bob gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg dderbyn ateb yn Gymraeg o fewn yr un amser ag y byddai'n ei gymryd i ymateb i ohebiaeth Saesneg wedi cael ei chyfleu i'r holl staff. Mae datganiad yn amlinellu'r ymroddiad hwn yn cael ei gynnwys ar ein holl ohebiaeth ganolog, gan gynnwys yn llofnodion electronig y staff. Mae cymorth a thempledi yn cael eu darparu i'r staff ar y Fewnwyd ac mae staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd drwy e-bost am gyfathrebu yn newis iaith y gohebydd, sut i gydymffurfio â safonau eraill a'r adnoddau sydd ar gael gan y Rheolwr Cyfathrebu.
- Mae adrannau unigol yn cofnodi ac yn cynnal cofnod o ddewis iaith ein gohebwyrr rheolaidd ac yn cyfathrebu â nhw gan ddefnyddio eu dewis iaith.
- Mae cylchlythyrau, llythyrau safonol a chyhoeddiadau'r Brifysgol, a gynhyrchir yn ganolog (megis y Prosbectws) yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
- Cychwynwyd ar adolygiad o arwyddion a'u newid.
- Cynhaliwyd hyfforddiant i staff y Dderbynfa ar y gofynion o ran Safonau. Mynychodd staff hyfforddiant Cymraeg wedi'i deilwra at anghenion staff derbynfa.
- Mae'r Brifysgol yn gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a chyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.

### **Safonau Gweithredu**

- Adolygwyd y wefan a gwnaed gwaith cyfieithu er mwyn sicrhau darpariaeth ddwyieithog.
- Lluniwyd canllawiau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer darpariaeth ddwyieithog.
- Crëwyd swydd newydd i gefnogi cyfathrebu corfforaethol dwyieithog, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol.
- Adolygwyd a diwygiwyd y broses recriwtio staff i gynnwys gofynion iaith Gymraeg .
- Mae holl hysbysebion swydd y Brifysgol yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg
- Crëwyd adran yn ymwneud â'r Gymraeg yn y Brifysgol ar y fewnwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd i hyrwyddo'r Gymraeg ac i helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

### **Safonau Llundio Polisi**

- Adolygwyd polisiau parthed effaith ar y Gymraeg a chydymffurfio drwy Swyddfa Cynllunio Strategol.
- Cyhoeddwyd gwybodaeth ynghylch dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol.

## **2. Y nifer o gwynion a dderbyniwyd (*fesul dosbarth safon – cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu*):**

Derbyniwyd un gwyn yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â safonau chyflenwi gwasanaethau a gweithredu.

**3. Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (yn seiliedig ar gofnodion o dan Safon 158)**

Yn seiliedig ar gofnodion a gedwir, mae gan y Brifysgol 176 o weithwyr sydd ag ystod o hyfedredd yn amrywio o fod yn wybodaeth sylfaenol i fod yn rhugl.

**4. Y nifer o swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a ddisbarthwyd yn ôl gofynion amrywiol parthed sgiliau Cymraeg (yn seiliedig ar gofnodion o dan Safon 162)**

<b>Meini prawf</b>	<b>Nifer</b>
<b>Dymunol</b>	<b>44</b>
<b>Hanfodol</b>	<b>2</b>
<b>Heb ei angen</b>	<b>1</b>

Cyhoeddi'r adroddiad hwn ar wefan y Brifysgol ac mae copi caled ar gael mewn swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau'n ymwneud â'r adroddiad hwn i: [cydymffurfio@glyndwr.ac.uk](mailto:cydymffurfio@glyndwr.ac.uk)